Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
26/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
23/3/2021

# Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019: Adroddiad Gogledd Cymru

© Crown Copyright
Digital ISBN 978-1-80195-144-9

# Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019: Adroddiad Gogledd Cymru

Mark Winterbotham, Genna Kik, Sam Selner, Jessica Huntley Hewitt, Sam Whittaker, Henry Allingham, Malina Cojocaru, Shannon Earl

IFF Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Winterbotham, M; Kik, G; Selner, S; Huntley Hewitt, J; Whittaker, S; Allingham, H; Cojocaru, M; & Earl, S; IFF Research (2021) Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019: Adroddiad Gogledd Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 26/2021
Ar gael ar: https://llyw.cymru/arolwg-sgiliau-cyflogwyr-2019

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, nid barn Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
James Carey
Is-Adran Cyflogadwyedd a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 253811
E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

## Cyflwyniad

**Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau allweddol a gafwyd o blith cyflogwyr yng Ngogledd Cymru yn Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019 (ESS 2019) Llywodraeth Cymru a'r Adran Addysg, sef arolwg mawr o gyflogwyr sy'n darparu darlun diffiniol o faint, natur ac effaith yr heriau sgiliau a wynebir gan gyflogwyr.**

**O 2010 hyd 2017, roedd yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr (ESS) yn eistedd ochr yn ochr â'r Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr (EPS) i gynhyrchu cipolygon oedd yn cyflenwi ei gilydd. Yn y bôn, roedd ffocws yr Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr yn edrych tuag allan, yn ymdrin â darparu system sgiliau ehangach, ac ymgysylltu â hi, tra bo ffocws yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr yn edrych fwy tuag i mewn, gan asesu sefyllfa sgiliau cyfredol y cyflogwyr a'u hanghenion o ran sgiliau. Ar gyfer Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019, cafodd y ddau arolwg eu cyfuno i bob pwrpas. I gael rhagor o fanylion am y fethodoleg, gwelwch adroddiad cenedlaethol Cymru (sydd ar gael ar wefan gov.Cymru) neu'r adroddiad technegol (sydd ar gael ar wefan gov.uk).**


### Recriwtio a Heriau Allanol

- Dywedodd tua un ymhob chwech o gyflogwyr yng Ngogledd Cymru (16%) bod ganddynt swyddi gwag ar adeg yr arolwg. Roedd hyn yn cyfateb â'r gyfran yng Nghymru'n gyffredinol (15%) ac nid oedd wedi newid o lefelau 2017.
- Wrth ystyried swyddi gwag fel cyfran o'r gyflogaeth, roedd oddeutu un swydd wag i bob 35 o weithwyr yng Ngogledd Cymru (2.9%). Roedd hyn ychydig yn is na'r ffigur yng Nghymru yn gyffredinol (3.2%) ac yn ostyngiad bychan iawn (er nad yn arwyddocaol yn ystadegol) yn y lefelau a nodwyd yng Ngogledd Cymru yn 2017 (3.1%). Roedd 8,400 o swyddi gwag i gyd yng Ngogledd Cymru yn 2019, o'i gymharu ag 8,700 yn 2017.
- Er nad oedd y mwyafrif o swyddi gwag yn anodd eu llenwi oherwydd prinder ymgeiswyr gyda'r sgiliau, cymwysterau neu brofiad gofynnol, mae anawsterau recriwtio gweithwyr oherwydd prinder sgiliau'n gallu bod yn broblem sylweddol i gyflogwyr. Yng Ngogledd Cymru, roedd gan 6% o gyflogwyr swyddi gwag oedd yn anodd eu llenwi oherwydd prinder sgiliau, cymwysterau neu brofiad, ac roedd

hyn yn gyfatebol â'r ffigur yng Nghymru gyfan (5%) yn 2019 ac yn cyfateb â'r canlyniadau yn 2017 (6%).

- Yn gyfan, ystyriwyd bod 28% o'r swyddi gwag yn anodd eu llenwi oherwydd prinder sgiliau yng Ngogledd Cymru, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol i Gymru (24%) ond yn debyg i'r lefelau a nodwyd yn 2017 (30%). Roedd hyn yn gywerth ag oddeutu 2,300 o swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau (SGPS) ledled Gogledd Cymru yn 2019 (Ffigur 1).

**Ffigur 1 Amlder, dwysedd a nifer y Swyddi Gwag lle'r oedd Prinder Sgiliau (SGPS) dros amser yng Ngogledd Cymru**




*Y Sylfaen: Yr holl sefydliadau yng Ngogledd Cymru: 2019 (1,666); 2017 (1,584); 2015 (1,528); 2013 (1,580); 2011 (1,420)*

- Yn ôl y cyflogwyr, y sgil mwyaf cyffredin oedd yn brin ymysg ymgeiswyr oedd y sgiliau neu'r wybodaeth arbenigol oedd yn angenrheidiol i wneud y rôl (roedd hyn yn cyfrannu at 51% o SGPS), er bod hynny'n llai cyffredin nag ydoedd yng Nghymru'n gyffredinol (61%). Yn dilyn hynny oedd anallu ymgeiswyr i reoli eu hamser eu hunain a blaenoriaethu tasgau (42%), tra bo diffyg gwybodaeth am gynhyrchion a gwasanaethau a sgiliau gweithio mewn tîm wedi eu nodi ar gyfer


tua thraean o SGPS (34% a 33% yn y drefn honno). O roi'r prif sgiliau oedd yn brin ymysg ymgeiswyr yn nhrefn eu nifer, gwelwyd bod y drefn yn debyg i 2017.

- O bell ffordd, canlyniad mwyaf cyffredin yr anhawster recriwtio staff newydd oherwydd prinder sgiliau a chymwysterau gofynnol oedd cynnydd yn y llwyth gwaith i aelodau eraill o'r staff (82%), oedd yn cyfateb â'r lefelau ledled Cymru yn 2019 (84%) a'r canlyniadau yn 2017 (85%).

**Yr Her Sgiliau Mewnol**

- Yn gyfan, roedd gan 13% o gyflogwyr fylchau sgiliau, oedd yr un fath â'r gyfran yng Nghymru'n gyffredinol ac oedd wedi aros yr un fath ers 2017 (Ffigur 2). Roedd y gyfran o weithwyr nad ystyriwyd yn gwbl hyfedr ychydig bach yn is yng Ngogledd Cymru (3.7%) na thrwy Gymru gyfan (4.0%). Roedd hyn yn ostyngiad ar y gyfran o weithwyr yng Ngogledd Cymru oedd â bylchau sgiliau yn 2017 (4.3%), am fod nifer is o staff gyda bylchau sgiliau yn 2019 (10,700 o'i gymharu â 12,000 yn 2017).

**Ffigur 2 Amlder, dwysedd a nifer y bylchau sgiliau dros amser yng Ngogledd Cymru**




*Y Sylfaen: Yr holl sefydliadau yng Ngogledd Cymru: 2019 (1,666); 2017 (1,584); 2015 (1,528); 2013 (1,580); 2011 (1,420)*

- Roedd tua un ymhob pump o fylchau sgiliau (19%) wedi eu hachosi'n gyfan gwbl gan ffactorau y gellid eu hystyried yn "fyrhoedlog", h.y. achosion a fyddai'n lleihau'n naturiol dros amser. Cyfrannodd yr elfennau hyn at 77% o gyfanswm y bylchau sgiliau, o'i gymharu â 84% yng Nghymru yn gyffredinol. Roedd y bylchau sgiliau byrhoedlog yn cynnwys y rheiny a achoswyd gan staff oedd yn newydd i'r rôl (62%) neu nad oeddent wedi cwblhau eu hyfforddiant yn gyfan gwbl (60%). Rhain oedd dau achos mwyaf cyffredin y bylchau sgiliau. Roedd cyfran uwch o fylchau sgiliau yng Ngogledd Cymru wedi eu hachosi gan ddiffyg cymhelliant ymysg y staff (40%) nag yng Nghymu yn gyffredinol (37%).
- Yn 2017, y sgil mwyaf cyffredin oedd yn brin yn y gweithlu yng Ngogledd Cymru oedd gweithio mewn tîm, ond erbyn 2019 roedd gallu'r staff i reoli eu hamser eu hunain wedi cymryd lle hwnnw ar y brig. Roedd y sgiliau hyn yn cyfrannu at 51% a 61% o'r bylchau sgiliau yn y drefn honno (o'i gymharu â 63% a 61% yn 2017). Y sgiliau hyn hefyd oedd y prif sgiliau oedd yn brin ymysg staff ledled Cymru gyfan (62% a 68% yn y drefn honno).
- Yn debyg i'r swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau, canlyniad mwyaf cyffredin y bylchau sgiliau oedd cynnydd yn y llwyth gwaith i aelodau eraill o staff (53%), fel oedd yn wir yn 2017 ac a oedd yn gyfatebol â'r canfyddiadau drwy Gymru gyfan (54%).
- Roedd gan oddeutu traean o'r cyflogwyr staff oedd â chymwysterau a sgiliau lefel uwch nag oedd yn ofynnol ar gyfer rôl eu swydd gyfredol (34%), ac roedd y gyfradd hon yn gyfatebol â chyfartaledd Cymru. Roedd hyn yn trosi i 7.9% o staff oedd â sgiliau a chymwysterau nad oeddent yn cael eu defnyddio'n ddigonol yn eu gwaith, sef cyfran gyfatebol â'r gyfran yng Nghymru yn gyffredinol (8.1%).

**Hyfforddiant a Datblygiad y Gweithlu**

- Roedd oddeutu tri chyflogwr ymhob pump yng Ngogledd Cymru (63%) wedi trefnu neu dalu am hyfforddiant i'w staff dros y 12 mis blaenorol (Tabl 1). Roedd hyn yn debyg i'r lefelau a nodwyd yn 2017 (61%) a thrwy Gymru gyfan (62%) yn 2019. Roedd cyfran debyg wedi darparu hyfforddiant yn y gwaith (48%) a hyfforddiant tu allan i'r gwaith (46%). Yn gyffredinol, roedd mwy na dwy ran o dair

(68%) o’r gweithlu wedi hyfforddi dros y 12 mis blaenorol. Roedd hyn yn gynnydd mawr ers 2017 (55%), ac roedd wedi cyfrannu at y cynnydd cyffredinol yn y gyfran o staff a hyfforddwyd yng Nghymru, o 58% yn 2017 i 65% yn 2019.

**Tabl 1 Y gyfran o gyflogwyr a hyfforddodd eu staff a’r gyfran o staff a gafodd eu hyfforddi dros y 12 mis blaenorol yng Nghymru ac yng Ngogledd Cymru ers 2011**

| | 2011 | | 2013 | | 2015 | | 2017 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru | Gogledd Cymru | Cymru | Gogledd Cymru | Cymru | Gogledd Cymru | Cymru | Gogledd Cymru | Cymru | Gogledd Cymru |
| % y cyflogwyr a hyfforddodd staff dros y 12 mis blaenorol | 63 | 67 | 62 | 61 | 63 | 66 | 62 | 61 | 62 | 63 |
| % y staff a hyfforddwyd dros y 12 mis blaenorol | 56 | 59 | 62 | 69 | 64 | 60 | 58 | 55 | 65 | 68 |

*Y Sylfaen: Yr holl sefydliadau 2019: Cymru (6,773); Gogledd Cymru (1,666); 2017: Cymru (5,913); Gogledd Cymru (1,584); 2015: Cymru (6,027); Gogledd Cymru (1,528); 2013: Cymru (5,996); Gogledd Cymru (1,580); 2011: Cymru (5,958); Gogledd Cymru (1,420)*

- Yn gyfan gwbl, cafodd 197,000 o staff eu hyfforddi yng Ngogledd Cymru, am gyfanswm o 1.1m o ddyddiau hyfforddi, sy’n gyfatebol â 5.5 o ddyddiau hyfforddi fesul person a hyfforddwyd fesul blwyddyn (h.y. ‘fesul hyfforddai’) a 3.7 o ddiwrnodau fesul gweithiwr. Roedd y ffigurau hyn ychydig bach yn uwch nag yng Nghymru, lle’r oedd pob hyfforddai wedi derbyn 5.1 o ddyddiau hyfforddi fesul blwyddyn a phob gweithiwr wedi derbyn 3.3 o ddyddiau hyfforddi fesul blwyddyn. Yn 2017, darparodd cyflogwyr yng Ngogledd Cymru lefelau tebyg o hyfforddiant i hyfforddeion (5.6 o ddyddiau hyfforddi bob blwyddyn) ond am fod cyfran is o staff wedi cael eu hyfforddi, roeddent wedi darparu llai o ddyddiau hyfforddi fesul gweithiwr (3.1 diwrnod y flwyddyn).
- Ymysg y sefydliadau oedd yn darparu hyfforddiant, y mathau mwyaf cyffredin o hyfforddiant a ddarparwyd oedd hyfforddiant penodol i swydd (84%), hyfforddiant iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf (75%) a hyfforddiant cynefino sylfaenol

(60%). Roedd pob un o'r canlyniadau hyn yn debyg i'r darlun cenedlaethol ac hefyd i ganlyniadau Gogledd Cymru yn 2017.

- Yn unol â'r canlyniadau drwy Gymru gyfan, roedd tri ymhob pump o gyflogwyr yng Ngogledd Cymru (60%; 59% yng Nghymru) yn ystyried eu bod mewn 'ecwilibriwm hyfforddi', sy'n golygu eu bod wedi gwneud y maint o hyfforddiant yr oeddent ei eisiau dros y 12 mis blaenorol. Roedd hyn hefyd yn debyg i'r lefelau a nodwyd yn 2017 (59%). Golygai hyn bod dau ymhob pump o gyflogwyr (40%) eisiau darparu mwy o hyfforddiant nag yr oeddent wedi gallu ei ddarparu dros y flwyddyn flaenorol.

**Prentisiaethau**

- Roedd llai nag un ymhob deg o gyflogwyr yng Ngogledd Cymru'n cyflogi prentisiaid (8%), gyda 7% pellach yn nodi eu bod yn cynnig prentisiaethau ar y pryd ond nad oedd ganddynt unrhyw staff yn eu gwneud nhw. Yn gyffredinol, roedd hyn yn golygu bod 14% o'r cyflogwyr yng Ngogledd Cymru yn gyflogwyr oedd â phrentis neu a oedd yn cynnig prentisiaethau ar y pryd.
- Y rheswm mwyaf cyffredin nad oedd cyflogwyr yn cynnig prentisiaethau oedd nad oedd y cyflogwyr yn chwilio am staff newydd (22%). Roedd cyfran debyg o gyflogwyr (15-16%) wedi crybwyll mai'r rhesymau nad oeddent yn cynnig prentisiaethau oedd nad oedd prentisiaid yn addas oherwydd maint eu sefydliad, bod y staff yn gwbl sgiliedig, ac nad oedd prentisiaethau'n cael eu cynnig yn eu diwydiant hwy. Roedd y canlyniadau hyn i gyd yn debyg i'r rheiny yng Nghymru'n gyffredinol. O roi'r rhesymau yn nhrefn eu nifer, roedd y drefn yn weddol debyg hefyd i 2016, er bod cyfran fwy o sefydliadau yn 2019 wedi nodi nad oedd prentisiaethau'n cael eu cynnig yn eu diwydiant hwy (15% o'i gymharu â 9% yn 2016) neu fod y staff yn gwbl sgiliedig (16% o'i gymharu â 9%).
- Dywedodd 68% o'r cyflogwyr oedd wedi recriwtio prentisiaid yn y tair blynedd diwethaf a aeth ymlaen i gwblhau eu prentisiaethau eu bod wedi cadw o leiaf un fel aelod parhaol o'r staff.
- Yr hyn a roddwyd fel rheswm yn fwyaf cyffredin gan y cyflogwyr oedd heb gadw prentisiaid oedd bod y prentis wedi penderfynu peidio aros (78%), er bod rhai wedi dweud hefyd mai'r rheswm na arhosodd oedd nad oedd yn ddigon galluog yn ei rôl (15%).

- Doedd y rhan fwyaf o’r cyflogwyr yng Ngogledd Cymru ddim wedi clywed am y rhaglen Hyfforddeiaethau, er bod 29% o’r cyflogwyr wedi clywed amdanynt. Dim ond 1% o’r cyflogwyr oedd wedi cymryd unrhyw aelod o staff yn rhan o’r rhaglen Hyfforddeiaeth, er bod oddeutu traean o’r cyflogwyr oedd heb gymryd Hyfforddai wedi mynegi diddordeb mewn gwneud hynny yn y dyfodol (34%). Roedd y canfyddiadau hyn yn cyfateb â’r ffigurau ledled Cymru

**Casgliadau**

Nid yw’r darlun o ran y swyddi gwag yng Ngogledd Cymru wedi newid rhyw lawer ers 2017; ni soniwyd am unrhyw newidiadau yn nhermau amlder y swyddi gwag, gan gynnwys y rheiny oedd yn anodd eu llenwi. Roedd y darlun o ran sgiliau’n weddol gyson hefyd - yn nhermau’r heriau sgiliau allanol a mewnol fel ei gilydd. Yn nhermau’r heriau sgiliau wrth recriwtio, arhosodd nifer y swyddi gwag lle’r oedd prinder sgiliau yr un fath, ac roedd y gyfran o swyddi gwag oedd yn anodd eu llenwi oherwydd prinder sgiliau mewn ymgeiswyr yn weddol debyg i 2017. Ond, mae’r canlyniadau’n awgrymu bod heriau sgiliau wrth recriwtio’n fwy difrifol yng Ngogledd Cymru nag ydynt drwy Gymru gyfan. Yn nhermau’r heriau sgiliau yn y gweithlu cyfredol, roedd amlder y bylchau sgiliau yng Ngogledd Cymru’n gyson â’r darlun cenedlaethol, ond roedd gan gyfran is o’r gweithlu fylchau sgiliau nag ydoedd yn 2017. Mae’n bosibl bod y gostyngiad hwn yn y bylchau sgiliau’n gysylltiedig â chynnydd mawr ers 2017 yn y gyfran o staff a gafodd eu hyfforddi.

**Tabl 2 Y Prif Ganfyddiadau**

| | Gogledd Cymru | | Cymru |
|---|---|---|---|
| | **2017** | **2019** | **2019** |
| **Swyddi gwag a swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau (SGPS)** | | | |
| % o sefydliadau gydag unrhyw swyddi gwag | 16 | 16 | 15 |
| % o sefydliadau gydag unrhyw swyddi gwag anodd eu llenwi | 8 | 8 | 7 |
| % o sefydliadau gyda swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau | 6 | 6 | 5 |
| % o'r holl swyddi gwag oedd yn swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau | 30 | 28 | 24 |
| Nifer y swyddi gwag | 8,700 | 8,400 | 40,800 |
| Nifer y swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau | 2,600 | 2,300 | 9,800 |
| **Bylchau sgiliau** | | | |
| % o sefydliadau gydag unrhyw staff nad oeddent yn gwbl hyfedr | 13 | 13 | 13 |
| Nifer y staff nad oeddent yn gwbl hyfedr | 12,000 | 10,700 | 50,900 |
| % o'r staff nad oeddent yn gwbl hyfedr | 4.3 | 3.7 | 4.0 |
| **Hyfforddiant** | | | |
| % o sefydliadau a fu'n hyfforddi unrhyw staff dros y 12 mis blaenorol | 61 | 63 | 62 |
| % o sefydliadau'n hyfforddi tu allan i'r gwaith yn y 12 mis blaenorol | 47 | 46 | 45 |
| % o'r gweithlu a hyfforddwyd | 55 | 68 | 65 |
| Cyfanswm y diwrnodau hyfforddi | 0.9m | 1.1m | 4.2m |
| Diwrnodau hyfforddi fesul hyfforddai | 5.6 | 5.5 | 5.1 |
| Diwrnodau hyfforddi fesul gweithiwr | 3.1 | 3.7 | 3.3 |
| **Prentisiaethau** | 2016 | 2019 | 2019 |
| Mae ganddynt brentisiaid ar y safle neu maent yn cynnig prentisiaethau | 17 | 14 | 16 |
| % o weithiwyr sy'n bwriadu cynnig prentisiaethau yn y dyfodol | 28 | 25 | 27 |
| Y % sy'n ymwybodol o'r rhaglen Hyfforddeiaethau yng Nghymru | Amh | 29 | 28 |